Taflen Waith
Blwyddyn 7

# Canrannau

**Cyfrifo Canran o rif.**

1. (a) Beth yw 45% o £200? (b) Beth yw 78% o £120? (c) Beth yw 23% o £45?
   (ch) Beth yw 89% o £2,400? (d) Beth yw 2% o £52? (dd) Beth yw 55% o £55?
2. Roedd 600 tocyn ar gael ar gyfer cyngerdd. Cafodd 37% o'r tocynnau eu gwerthu ar y diwrnod cyntaf iddyn nhw fod ar werth. Faint o docynnau gafodd eu gwerthu'r diwrnod hwnnw?
3. Yn y Loteri Genedlaethol mae 28% o'r arian sy'n cael ei gasglu yn mynd at elusennau. Un wythnos casglodd siop £5,670. Faint o'r arian hwn sy'n mynd at elusennau?
4. Cyflog Lyn yw £180 yr wythnos. Mae hi'n cael codiad o 3%. Faint yw'r codiad yn ei chyflog wythnos?
5. Mae Mary yn hurbwrcasu popty microdon. Mae'n gorfod talu blaendal, sef 12% o'r pris sy'n £320. Faint yw'r blaendal hwn?
6. Mae Arwel yn ennill £230 yr wythnos. Mae ei gyflogwr yn tynnu 22% o'r swm hwn ar gyfer treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn. Faint o arian sy'n cael ei dynnu?

**Elw a Cholled.**

1. Mae Carol yn derbyn £5 o arian poced. Faint o arian poced mae hi'n ei gael os yw'n derbyn codiad o 15%?
2. Mewn sêl, mae siop yn cynnig disgownt o 20% ar y prisiau. Beth yw pris peiriant torri gwair yn y sêl os sy'n arfer costio £155?
3. Prynodd Zafar duniau ffa pob am £125. Fe'u gwerthodd gan wneud elw o 32%. Faint a gafodd am y tuniau hyn?
4. Cyflog Susan yw £185 yr wythnos. Mae'n cael codiad o 6%. Faint yw ei chyflog ar ôl y codiad?
5. Mae car newydd yn costio £11,500. Mae ei werth yn lleihau 18% yn ei flwyddyn gyntaf. Beth fydd gwerth y car pan fydd yn flwydd oed?

**Llog syml**

1. Darganfyddwch y llog syml a delir pan gaiff £750 eu benthyg am 2 flynedd yn ôl 6% y flwyddyn.
2. Darganfyddwch y llog syml a delir pan gaiff £420 eu benthyg am 3 blynedd yn ôl 8% y flwyddyn.
3. Darganfyddwch y llog syml a delir pan gaiff £600 eu benthyg am 4 blynedd yn ôl 5% y flwyddyn.
4. Darganfyddwch y cyfanswm y mae ei angen i ad-dalu £520 â llog syml yn ôl 7% am 2 flynedd.
5. Darganfyddwch y cyfanswm y mae ei angen i ad-dalu £800 â llog syml yn ôl 9% am 3 blynedd.

**Gwaith Cartref**

1. (a) Beth yw 67% o £450? (b) Beth yw 6% o £2,000? (c) Beth yw 87% o $2,300?
2. Mae siop yn cynnig disgownt o 15% o'r pris arferol mewn sêl. Beth yw'r pris yn y sêl ar gyfer system stereo sy'n costio £320 fel arfer?
3. Mae gwerth fflat a brynwyd am £35,700 yn cynyddu 5% y flwyddyn.
   Darganfyddwch werth y fflat ar ôl blwyddyn.